
# Gweithdrefnau Gêm £100,000 Tripler Purple




**Cyflwyniad**

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer £100,000 TRIPLER PURPLE (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Manylion y Gêm**

Enw'r Gêm: **"£100,000 TRIPLER PURPLE"**
Rhif y Gêm: **"Gêm 1334"**
Pris Manwerthu: **£1 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 4.26 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 42,355,080 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

**Sut i chwarae ac ennill**

Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys naw motiff ''. O dan yr Ardal Chwarae, mae motiff '' (y "Blwch Triphlyg").


I chwarae'r Gêm, dylech grafu'r haen gyfan oddi ar yr Ardal Chwarae. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu tri Symbol Chwarae unfath gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol o dan haen y motiffau '' yn yr Ardal Chwarae. Bydd y Wobr gyfwerth â swm un o'r tri Symbol Chwarae unfath hynny.

Os byddwch yn ennill Gwobr, dylech grafu'r haen yn y Blwch Triphlyg.

Os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae '' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Triphlyg, bydd y Wobr gyfwerth â swm un o'r Symbolau Chwarae unfath gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol a ddatgelwyd gennych o dan yr haen yn yr Ardal Chwarae.


Os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae '' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Triphlyg, bydd y Wobr gyfwerth â theirgwaith swm y Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol a ddatgelwyd gennych o dan yr haen yn yr Ardal Chwarae.

**Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | £1.00 | £2.00 | £3.00 | £5.00 | £6.00 |
| Penawdau Chwarae | -ONE- | -TWO- | THREE | -FIVE | -SIX- |
| Symbolau Chwarae | £9.00 | £10.00 | £20.00 | £30.00 | £60.00 |
| Penawdau Chwarae | -NINE | -TEN- | TWNTY | THRTY | SIXTY |
| Symbolau Chwarae | £90.00 | £100 | £1,000 | £5,000 | £100,000 |
| Penawdau Chwarae | NINTY | -HUND | -THOU | FIVTH | HNTHO |

Bydd naw Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn yr Ardal Chwarae. Dim ond y Symbolau Chwarae a'r Penawdau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

**Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae Blwch Triphlyg**

| | | |
|---|---|---|
| Symbolau Chwarae |  |  |
| Penawdau Chwarae | SINGLE | TRIPLE |

18+

**GP GM1334**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

Bydd un Symbol Chwarae Blwch Triphlyg gyda'i Bennawd Chwarae Blwch Triphlyg cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Triphlyg. Dim ond Symbol Chwarae'r Blwch Triphlyg a Phennawd Chwarae'r Blwch Triphlyg y gellir eu defnyddio i bennu p'un a gaiff y Wobr a enillwyd, os o gwbl, ei threblu.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o docynnau eu hargraffu |
|---|---|---|---|
| £1 | 3,952,985 | 11 | +/- 5.00% |
| £2 | 3,435,618 | 13 | +/- 5.00% |
| £3 | 235,214 | 181 | +/- 5.00% |
| £3 £1 TRIPLE | 706,010 | 60 | +/- 5.00% |
| £5 | 564,605 | 76 | +/- 5.00% |
| £6 | 141,199 | 300 | +/- 5.00% |
| £6 £2 TRIPLE | 235,306 | 180 | +/- 5.00% |
| £9 | 141,253 | 300 | +/- 5.00% |
| £9 £3 TRIPLE | 235,306 | 180 | +/- 5.00% |
| £10 | 188,171 | 226 | +/- 5.00% |
| £15 £5 TRIPLE | 47,135 | 899 | +/- 5.00% |
| £20 | 47,032 | 901 | +/- 5.00% |
| £30 | 2,825 | 14,993 | +/- 5.00% |
| £30 £10 TRIPLE | 4,708 | 8,997 | +/- 5.00% |
| £60 | 319 | 132,775 | +/- 5.00% |
| £60 £20 TRIPLE | 634 | 66,807 | +/- 5.00% |
| £90 | 312 | 135,754 | +/- 5.00% |
| £90 £30 TRIPLE | 307 | 137,965 | +/- 5.00% |
| £100 | 670 | 63,217 | +/- 5.00% |
| £1,000 | 8 | 5,294,385 | +/- 36.55% |
| £5,000 | 6 | 7,059,180 | +/- 36.55% |
| £100,000 | 6 | 7,059,180 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Gall y Gêm barhau i gael ei gwerthu ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei hawlio. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

## Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 63.02% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £26,692,234 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

## Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.